Adroddiad i'r	Pwyllgor Cynllunio
Dyddiad y cyfarfod	22 Mawrth 2023
Aelod / Swyddog Arweiniol	Y Cynghorydd Win-Mullen James - Aelod Arweiniol Datblygu Lleol a Chynllunio
Pennaeth Gwasanaeth	Emlyn Gwynedd Jones - Pennaeth Cynllunio a'r Gwasanaethau Gwarchod y Cyhoedd
Awdur yr adroddiad	Bethan Morris - Swyddog Cynllunio
Teitl	Ymateb i Lywodraeth Cymru ynglŷn â fersiwn ddiwygiedig Ionawr 2023 o Nodyn Cyngor Technegol (TAN) 15: Datblygu, llifogydd ac erydu arfordirol.

1. Am beth mae'r adroddiad yn sôn?

1.1. Mae'r adroddiad hwn yn darparu gwybodaeth ar y diwygiadau arfaethedig i Nodyn Cyngor Technegol (TAN) 15. Datblygu, llifogydd ac erydu arfordirol. Mae'n rhoi manylion am ymateb Cyngor Sir Ddinbych i'r ymgynghoriad ar gynigion Llywodraeth Cymru.

2. Beth yw'r rheswm dros lunio'r adroddiad hwn?

2.1. Mae angen cymeradwyaeth i'r ymateb drafft i Lywodraeth Cymru ar y Nodyn Cyngor Technegol 15 diwygiedig arfaethedig.

3. Beth yw'r Argymhellion?

3.1. Fod y Pwyllgor Cynllunio yn cymeradwyo'r llythyr yn ymateb i ymgynghoriad Nodyn Cyngor Technegol 15 yn Atodiad 1 i'w gyflwyno i Lywodraeth Cymru.

4. Manylion yr adroddiad

4.1. Mae Nodyn Cyngor Technegol (TAN) yn ofyniad cenedlaethol sy'n rhoi arweiniad o ran lleoliad ac asesu datblygiad newydd. Mae TAN 15 yn arwain datblygiad yn nhermau'r perygl o lifogydd.

4.2. Cyhoeddwyd y TAN 15 newydd gyntaf gan Lywodraeth Cymru ar gyfer ymgynghoriad ym mis Hydref 2019. Ymatebodd Cyngor Sir Ddinbych i'r ymgynghoriad ar 19.02.2020 gan leisio pryder nad oedd yn gallu gweld y Map Llifogydd ar gyfer Cynllunio. Ar 28.09.2021 cyhoeddwyd TAN 15, gyda'r Map Llifogydd ar gyfer Cynllunio a dyddiad cychwyn sef 01.12.2021. Gohiriwyd dod â'r cynllun i rym tan Fehefin 2023 gan ystyried y pryderon dros ei ddiffyg hyblygrwydd yn enwedig mewn aneddiadau trefol arfordirol mawr. Cyhoeddwyd fersiwn diweddar ar 23.01.2023 ac ymgynghorir ar hwn ar hyn o bryd tan 17.04.2023. Mae'r llythyr yn Atodiad 1 yn ymateb i'r ymgynghoriad diweddaraf hwn.

4.3. Mae'r TAN 15 diwygiedig yn anelu i leihau'r perygl o lifogydd a galluogi datblygiad gwydn mewn meysydd lle mae llai o berygl o lifogydd. Mae erydu arfordirol nawr yn cael ei gynnwys o fewn TAN 15, tra'n flaenorol ymdriniwyd â hyn ar wahân o dan TAN 14. Fe ddylai ei gynnwys gynorthwyo i amlygu'r peryglon sy'n gysylltiedig ag erydu arfordirol. Mae'r darogan yn ymwneud â'r newid yn yr hinsawdd wedi ei ymgorffori i'r perygl o lifogydd ac mae'r canllawiau wedi eu hehangu yn benodol ar fathau a chategorïau o ddatblygu ac asesiadau canlyniadau llifogydd.

4.4. Newid pwysig yw fod pedwar parth perygl llifogydd (Parthau 1, 2, 3 a pharthau a amddiffynnir TAN 15) yn cael eu cynnig sy'n disodli'r categoreiddio blaenorol yn ymwneud â pherygl llifogydd (A, B, C1 a C2).

4.5. Caiff perygl llifogydd A, lle mae risg isel iawn, ei ddisodli gan Barth 1, fodd bynnag nid oes cymhariaeth uniongyrchol gyda Pharthau eraill. Caiff y dosbarthiad blaenorol ei ddangos ar Fap Cyngor Datblygu. Caiff y Parthau newydd eu darparu ar Fap Llifogydd Cymru gyfan sy'n cymryd i ystyriaeth y darogan yn ymwneud â'r newid yn yr hinsawdd ac yn arddangos y perygl o lifogydd dŵr wyneb sy'n rhaid ei ystyried hefyd. Mae Map Llifogydd Cymru ar gyfer Cynllunio a'i barthau llifogydd wedi ei gynllunio i weithredu fel sbardun ar gyfer y profion cyfiawnhad a derbynioldeb.

4.6. Mae yna sawl darn newydd o ganllawiau a gofynion yn fersiwn Ionawr 2023 o Tan 15. Mae pedwar math o ddatblygiad wedi eu diffinio, ceir eglurder ar gategorïau o fregusrwydd datblygiad, mae'n bosibl fod angen cynlluniau gwytnwch ac addasu cymunedol nawr a chaiff mathau o ddatblygiad eu caniatáu yn wahanol yn y parthau llifogydd. Caiff nodyn briffio llawn ar y TAN 15 newydd ei ddarparu yn Atodiad 2.

5. Sut mae'r penderfyniad yn cyfrannu at y Cynllun Corfforaethol 2022 i 2027: Y Sir Ddinbych a Garem?

5.1. Unwaith y bydd Llywodraeth Cymru wedi cyhoeddi TAN 15 bydd yn arwain lleoliad datblygiad newydd oddi wrth ardaloedd lle ceir perygl o lifogydd gan ystyried yr oblygiadau o ran y newid yn yr hinsawdd. Bydd yn newid canllawiau cenedlaethol a fydd yn cael effaith ar benderfynu ar geisiadau cynllunio a chreu Cynlluniau Datblygu Lleol (CDLl).

5.2. Nid oes yna effaith uniongyrchol ar y Blaenoriaethau Corfforaethol o ganlyniad i gyflwyno'r ymateb i Lywodraeth Cymru. Ond bydd TAN 15 fodd bynnag yn effeithio ar gyfeiriad datblygu yng Nghymru yn y dyfodol ac felly cyflawni Blaenoriaethau Corfforaethol yn y dyfodol a Strategaethau'r Cyngor fel y Strategaeth Dai a Digartrefedd a Chynlluniau Datblygu Lleol yn y dyfodol.

5.3. Fe fydd yr ymateb i Lywodraeth Cymru ar TAN 15 ei hun yn cael effaith niwtral ar nod y Cyngor i ddod yn Gyngor Di-garbon Net ac Ecolegol Gadarnhaol erbyn 2030. Fe fydd TAN 15 drwy gyfeirio polisïau a dyraniadau tir y CDLl Newydd 2018 i 2033 yn gwneud cyfraniad cadarnhaol tuag at nod y Cyngor i ddod yn Ddi-garbon Net ac Ecolegol Gadarnhaol erbyn 2030.

6. Faint fydd hyn yn ei gostio a sut y bydd yn effeithio ar wasanaethau eraill?

6.1. Ni fydd cymeradwyo'r ymateb i'r ymgynghoriad i Lywodraeth Cymru yn arwain at unrhyw gostau ychwanegol nac yn effeithio ar wasanaethau eraill.

7. Beth yw prif gasgliadau'r Asesiad o Effaith ar Les?

7.1. Nid oes Asesiad o Effaith ar Les wedi cael ei gynnal am nad yw'r adroddiad yn ceisio penderfyniad ar bolisi, strategaeth, na rhaglen y Cyngor.

8. Pa ymgynghoriadau sydd wedi'u cynnal gyda Chraffu ac eraill?

8.1. Mae'r ymgynghoriad ar TAN 15 diwygiedig Ionawr 2023 wedi ei godi yn y Grŵp Cynllunio Strategol ar 23/02/2023 a bydd y nodyn briffio yn Atodiad 2 yn cael ei gylchredeg i'r holl aelodau.

9. Datganiad y Prif Swyddog Cyllid

9.1. Nid oes unrhyw oblygiadau cyllidebol yn codi o gytuno i'r ymateb i'r ymgynghoriad i Lywodraeth Cymru ar y TAN 15 diwygiedig arfaethedig. Fodd bynnag, os bydd unrhyw gostau'n codi, bydd angen eu cynnwys o fewn cyllidebau refeniw presennol y gwasanaethau.

10. Pa risgiau sydd yna ac oes yna unrhyw beth y gallwn ei wneud i'w lleihau?

10.1. Mae ymgysylltu mewn ymgynghoriad yn rhoi'r cyfle i leisio cefnogaeth neu fynegi gwrthwynebiadau. Drwy beidio ag ymateb i'r ymgynghoriad ni fyddai llais Cyngor Sir Ddinbych yn cael ei glywed ar bolisi cynllunio cenedlaethol.

11. Pŵer i wneud y penderfyniad

11.1. Deddf Llywodraeth Leol 2000

11.2. Deddf Cynllunio a Phrynu Gorfodol 2004

11.3. Deddf Cynllunio (Cymru) 2015 a rheoliadau a chanllawiau cysylltiedig

Atodiad 1: Ymateb i Lywodraeth Cymru mewn perthynas â fersiwn Ionawr 2023 o TAN 15.

Atodiad 2: Nodyn briffio i Aelodau ar y TAN 15 newydd.